

SESIWN 3: CANEUON PROTEST AC ANGHYDRADDOLDEB YN AMERICA LADIN

Ystod oedran: 9-11 oed

Amlinelliad

Bydd y dysgwyr yn dechrau trwy feddwl pam y mae pobl yn protestio, gan fyfyrio ar y materion hil y dysgont amdanynt yn Sesiynau 1 a 2. Bydd y sesiwn hon yn mynd ymlaen wedyn i archwilio materion anghydraddoldeb yn America Ladin, ac yn Chile a Bolifia yn benodol. Bydd y dysgwyr yn gwrandao ar gân Victor Jara *A desalambarr* (Chwalwch y Ffensys) ac yn edrych ar sut y defnyddiwyd caneuon i dynnu sylw at faterion hawliau tir ar gyfer pobl frodorol. Wedyn, bydd y dysgwyr yn defnyddio taflen gweithgaredd papur newydd i archwilio rhai astudiaethau achos o Bolifia, gan gynnwys mudiad protestio llwyddiannus a'r heriau y mae'n dal i'w hwynebu. Bydd y dysgwyr wedyn yn dechrau cynllunio eu cân brotest eu hunain. **Sylwch ein bod yn argymhell y sesiwn hon ar gyfer plant 9-11 oed yn unig gan fod natur y deunydd yn fwy cymhleth.**

Amcanion dysgu

- Dod i ddeall mathau penodol o anghydraddoldeb hiliol.
- Archwilio math penodol o gân brotest.
- Syntheseiddio gwybodaeth o erthygl bapur newydd a'i chyfleu i eraill mewn modd creadigol.

Deilliannau dysgu

- Bydd y dysgwyr yn datblygu gwaith chwarae rôl yn seiliedig ar wybodaeth o weithgaredd darllen papur newydd.
- Bydd y dysgwyr yn defnyddio eu gwybodaeth am anghydraddoldeb i gynllunio cân brotest.

Cwestiynau allweddol

- Pam y mae pobl yn protestio?
- Cân am bwy oedd un Victor Jara?
- Beth yw ystyr "brodorol"?
- Pam y mae hawliau tir yn bwysig?
- Sut y gallaf i ddefnyddio cân i ddweud wrth bobl eraill am anghydraddoldeb?

Adnoddau

- Sioe Sleidiau: *Codi ein Lleisiau* (sleidiau 15–21)
- Taflen gweithgaredd: *Newyddion Bolifia*
- Nodiadau cefndir i'r athro

Amlinelliad o'r sesiwn

Tasg gychwynol (10 munud)

Pam y mae pobl yn protestio?

- Gofynnwch i'r dosbarth feddwl am rywbeth yn yr ysgol y maen nhw'n teimlo sy'n annheg ac yr hoffent ddweud wrth yr athrawon amdano. A yw'n rhywbeth sy'n effeithio ar lawer o ddysgwyr? Pam y maen nhw am i'r athrawon glywed amdano?
- Esboniwch fod codi llais am broblem er mwyn ceisio achosi newid yn fath o brotest. Mae protest yn ffordd o ofyn i'r bobl sy'n gyfrifol (er enghraifft, llywodraethau neu brifathrawon) ddatrys problemau neu wneud pethau'n decach. Gall protest helpu pobl i ddweud eu dweud am rai o'r pethau sy'n bwysig i'w bywydau nhw, neu i fywydau pobl eraill. Er enghraifft, bu Americanwyr Affricanaidd yn protestio yn erbyn gorfod anfon eu plant i ysgolion nad oeddent cystal â'r ysgolion yr oedd plant gwyn yn mynd iddynt. A yw'r dosbarth yn gallu cofio (o Sesiwn 1) unrhyw bethau eraill y bu Americanwyr Affricanaidd yn protestio yn eu herbyn yn rhan o'r Mudiad Hawliau Sifil?
- Pa brotestiadau eraill y mae'r dysgwyr yn gwybod amdanynt? Rhowch enghreifftiau efallai (protestiadau yn erbyn penderfyniad y llywodraeth i roi llai o arian i bobl sy'n methu gweithio am eu bod yn anabl; protestiadau yn erbyn creulondeb at anifeiliaid).

Gweithgaredd 3.1 (10 munud)

Anghydraddoldeb o ran hawliau tir a phrotest yn America Ladin

- Dangoswch sleid 16 i leoli Chile ar y map. Gofynnwch a yw'r dosbarth wedi clywed am Chile o'r blaen ac a ydynt yn gwybod rhywbeth am y wlad. Edrychwch ar y gwledydd sy'n ffinio â Chile (yn enwedig Bolifia a Paraguay).
- Esboniwch eich bod yn mynd i wrando ar gân gan gerddor o Chile o'r enw Victor Jara. vimeo.com/27705333 (1 munud 31 eiliad). Gofynnwch a yw'r dosbarth yn gwybod ym mha iaith y mae'n canu.
- Ar ôl gwyllo'r fideo, dylech gadarnhau bod Jara yn canu yn Sbaeneg, yr iaith y mae'r rhan fwyaf o'r bobl sy'n byw yn Chile yn ei siarad. Gofynnwch am beth, yn eu barn nhw, yr oedd yn canu. (Efallai y bydd ganddynt syniadau o'r fideo.) Dywedwch wrthynt fod enw'r gân, *A desalabarar*, yn golygu "Chwalwch y ffensys". Esboniwch fod y gân yn enghraifft o fath newydd o gân brotest a ddechreuodd yn America Ladin yn yr 1960au a'r 1970au o'r enw *Nueva Canción* (Cân Newydd). Roedd y gân yn gofyn i'r gwrandawyr feddwl am hawliau pobl i berchnogi neu reoli'r tir y maent yn byw arno.
- Yn America Ladin, mae hawliau tir pobl frodorol (y bobl sy'n bodoli'n naturiol mewn lle neu wlad yn hytrach na'r rhai sy'n cyrraedd o fannau eraill) yn aml yn cael eu gwrthod oherwydd anghydraddoldeb hiliol. Mae hyn yn golygu eu bod nhw'n aml yn byw mewn tloidi, sy'n eu gwneud yn agored i siociau, fel llifogydd.
- Mae tir amaethyddol yn neilltuol o bwysig i bobl dlawd mewn gwledydd sy'n datblygu oherwydd

bod angen tir arnynt i fedru ennill bywoliaeth. Fodd bynnag, mae hawliau cyfreithiol llawer o bobl dros y tir y maent yn byw ac yn gweithio arno yn cael eu gwrthod, yn enwedig yn achos menywod, sy'n golygu bod modd iddynt gael eu herlid o'r tir a'u gadael heb fodd i dyfu bwyd na gwerthu cynydau i ennill arian.

- Roedd Victor Jara yn defnyddio cerddoriaeth i siarad o blaid hawliau pobl frodorol gan gredu na ddylent ddiodeff oherwydd gwahaniaethu hiliol ac y dylai llywodraethau fod yn decach.
- Yn Paraguay, gwlad arall yn America Ladin, mae tîrfeddianwyr mawr yn rheoli 80% o dir amaethyddol y wlad. Bob blwyddyn, mae 9,000 o deuluoedd cefn gwlad yn cael eu troi allan o'u tir a gorfodir llawer ohonynt i symud i slymiau'r ddinas.

Gweithgaredd 3.2 (30 munud)

Newyddion o Bolifia

Bydd y dysgwyr yn awr yn edrych yn fanylach ar rai enghreifftiau diweddar o broblemau tir ac anghydraddoldeb hiliol ym Molifia. Rhannwch y dosbarth yn grwpiau llai a dosbarthwch *Newyddion Bolifia*. Gofynnwch i'r grwpiau ddarllen trwy'r adroddiad papur newydd gyda'i gilydd. Gallech hefyd roi'r cwestiynau canlynol iddynt i helpu i lywio'r gwaith darllen:

- Pam y mae hi mor arwyddocaol fod Evo Morales wedi dod yn arlywydd Bolifia?
- Pa broblemau y mae pobl frodorol Bolifia wedi'u cael?
- Faint o dir sydd wedi'i roi i gymunedau brodorol?
- I bwy y collodd Martha ei thir?
- Beth a gafodd ei ddinistrio tra bo'r biblinell nwy yn cael ei gosod?
- Pa fygythiad sy'n dal i wynebu cymunedau tlotaf Bolifia?
- Pa newidiadau a gafodd eu gwneud i gartref Fernando er mwyn helpu i amddiffyn ei deulu rhag llifogydd?

Unwaith y bydd y grwpiau wedi gorffen darllen, gofynnwch i bob un ohonynt baratoi chwarae rôl ar gyfer y dosbarth i gyfleu'r hyn y maent wedi'i ddarllen. Gallai hyn fod ar ffurf rhaglen newyddion ar y teledu neu gyfweiliad ag un o'r bobl yn y straeon. Nid oes angen iddynt gynnwys yr holl wybodaeth o'r daflen ond gallent ddewis y rhan sy'n fwyaf diddorol yn eu llygaid nhw.

Os bydd gennych amser, efallai yr hoffech esbonio i'r dysgwyr fod tloti, anghydraddoldeb a'r newid yn yr hinsawdd wedi effeithio ar rai o hawliau dynol pobl frodorol Bolifia. Er enghraifft:

- Yr hawl i gael digon i'w fwyta
- Yr hawl i amgylchedd diogel
- Yr hawl i ennill bywoliaeth
- Yr hawl i gyfle cyfartal

Gwahaniaethu

Gwneud pethau'n haws: Yn hytrach na chwarae rôl, darllenwch trwy'r ddalen newyddion fel dosbarth ac yna ffurfio grwpiau ffocws i ateb y cwestiynau uchod.

Sesiwn lawn (5–10 munud)

Cynllunio ar gyfer cân brotest

- Gan fyfyrrio ar hyn y maent wedi'i ddysgu am anghydraddoldeb yn y sesiynau diwethaf, gofynnwch i'r dosbarth feddwl am fater yr hoffent ysgrifennu cân brotest amdano.
- Pan fydd thema ganddynt mewn golwg, gwnewch nodyn o'r pwyntiau yr hoffent sôn amdanynt yn gysylltiedig â'r thema honno – bydd hynny'n sail ar gyfer pob pennill.

Telerau defnyddio

Hawlfraint © Oxfam GB

Gallwch ddefnyddio lluniau a gwybodaeth berthnasol yn yr adnodd hwn i ddibenion addysgol yn eich sefydliad addysgol. Bob tro y byddwch yn ei defnyddio, rhaid i chi gydnabod y ffotograffydd sy'n cael ei enwi ar gyfer y ddelwedd honno, ynghyd ag Oxfam. Ni chewch ddefnyddio'r delweddau na'r wybodaeth gysylltiedig i ddibenion masnachol, nac y tu allan i'ch sefydliad addysgol. Mae'r holl wybodaeth sy'n gysylltiedig â'r delweddau hyn yn berthnasol i'r dyddiad a'r adeg y cafodd y gwaith prosiect ei gyflawni.



NEWYDDION BOLIFIA

EICH HOFF BAPUR NEWYDD DYDDIOL

GWRANDO AR LAIS Y BOBL O'R DIWEDD!



Ar ôl blynyddoedd o frwydro gan fudiadau protest Bolifia, etholwyd Evo Morales yn arlywydd brodorol cyntaf y wlad. Tan yn ddiweddar iawn, roedd poblogaeth frodorol fwyafrifol Bolifia yn wynebu tldi, anghydraddoldeb ac annhegwch helaeth. Yn 1950, roedd 70% o'r tir yn nwyrain y wlad yn eiddo i 4.2% yn unig o boblogaeth Bolifia. Nawr, o ganlyniad i alwadau'r bobl frodorol am dir, rhoddwyd mwy

na 28 miliwn hectar o dir iddynt (sy'n cyfateb i bron 40 miliwn o feysydd pêl-droed!). Mae'r isafswm cyflog (y swm lleiaf o arian y mae'n rhaid ei dalu i weithwyr) wedi codi hefyd ac mae'r llywodraeth wedi gwario mwy o arian ar ofal iechyd ac addysg. Mae hyn i gyd yn golygu bod lefelau tldi ac anghydraddoldeb yn gostwng ym Molifia.

Ar flaen y gad yn y frwydr dros hawliau sylfaenol

Nid buddugoliaeth Evo Morales yw diwedd y stori o ran hawliau tir. Gall bargeinion â busnesau mawr olygu nad yw hawliau pobl frodorol i dir yn cael eu parchu o hyd. Roedd gan Martha Cuellar 25 o goed ffrwythau ond cawsant eu dinistrio pan osododd PlusPetrol biblinell nwy yn ei gardd. Roedd arweinwyr ei chymuned yn Puerto Viejo wedi taro bargaen wael gyda'r cwmni heb ddweud dim wrth Martha.

Yn ddiweddar, mae'r llywodraeth wedi newid ei bargeinion gyda chwmnïau oled a nwy i sicrhau eu bod yn darparu mwy o brosiectau sy'n fanteisiol i'r gymuned. Ond mae hanesion fel un Martha yn dal i ddigwydd, gan ddangos bod anghydraddoldeb o ran perchnogaeth tir yn broblem o hyd

“Roeddwn i'n ddig iawn, roeddwn i'n llefain. Gofynnais ‘pw y roddodd ganiatâd i chi wneud hyn?’ Gwelais yr holl goed ffrwythau wedi'u torri ar y llawr ... a gwelais fod y fuch wedi'i hanafu yn nhwll y biblinell ... addawodd y peiriannydd iawndal a chymorth i mi ond ni ddaeth byth yn ôl.” Martha Cuellar

Newid hinsawdd yn fygythiad mawr o hyd

Er bod Bolifia wedi cymryd camau ymlaen, mae anghydraddoldeb yn broblem fawr i'r wlad o hyd. Mae llawer o gymunedau sy'n byw mewn tldi yn ffermio tir rhatach sy'n fwy tebygol o ddioddef sychder a llifogydd. Mae'r problemau hyn yn dod yn fwy cyffredin oherwydd y newid yn yr hinsawdd.

Mae rhanbarth Beni ym Molifia yn dir gwastad o'r un maint â'r DU.

Mae'n dioddef sychder a llifogydd trwy'r flwyddyn sy'n effeithio ar filoedd o bobl. Mae Oxfam yn gweithio gyda phartneriaid i helpu cymunedau gwledig a oedd yn colli eu cartrefi a'u cnydau i'r llifddwr bob blwyddyn. Mae tai wedi cael eu codi ar byst, i amddiffyn teuluoedd yn well rhag y llifddwr. Mae ffermwyr hefyd wedi ailgydio mewn system dyfrhau hynafol o'r *camellones* i'w helpu i dyfu eu cnydau trwy gydol y flwyddyn.



Fernando Franco Zelady a'i gefnder ifanc Yoani Guasinave Franco o flaen drws eu cartref uwch. Mae'r bechgyn wedi cael budd o brosiect Oxfam

Nodiadau cefndir i'r athro

Mudiad *Nueva Canción* yn America Ladin

Mudiad gwerin â chydwybod gymdeithasol oedd Mudiad y "Gân Newydd" a fu ar waith ledled America Ladin, ac yn fwyaf gweithgar yn Chile a'r Ariannin. Roedd â'i wreiddiau yng ngwledydd llai datblygedig America Ladin. Fodd bynnag, buan y cafodd ei gysylltu â mudiadau hawliau dynol oherwydd geiriau gwleidyddol y caneuon a oedd yn cynnwys gwrthsefyll imperialaeth yr Unol Daleithiau. Daeth cerddorion yn rhan o frwydr ddi-drais, gan ddefnyddio cerddoriaeth i sôn yn agored am dlodi, grymuso, imperialaeth, democratiaeth, hawliau dynol, crefydd a hunaniaeth America Ladin.

"Dylai chwyldroadwyr go iawn sefyll y tu ôl i'r gitâr, fel bod y gitâr yn dod yn un o offerynnau'r frwydr, er mwyn iddi allu saethu fel gwn" – Victor Jara

Roedd cysylltiad agos rhwng Mudiad y Gân Newydd a chynghrair boblogaidd *Unidad Popular* Salvador Allende, a enillodd etholiad cyffredinol yn 1970. Fodd bynnag, cafodd llywodraeth Allende ei dymchwel yn 1973 gan wrthryfel milwrol o dan arweiniad y Cadfridog Pinochet. Cafodd *Nueva Canción* ei wahardd gan gyfundrefn Pinochet a dechreuodd cyfnod o "dywyllwch diwylliannol" yn y wlad. Gwaharddwyd defnyddio offerynnau traddodiadol ac roedd cantorion yn cael eu hystyried yn eithafwyr. Cafodd Victor Jara ei boenyddio a'i ladd o dan y gyfundrefn filwrol hon.

Pobl frodorol, amaethwyr gwerin a hawliau tir yn America Ladin

Mae oddeutu 10% o boblogaeth America Ladin a'r Caribî yn bobl frodorol. Ond bu'r bobl hyn o dan anfantais ers canrifoedd. Pan wladychwyd y cyfandir yn wreiddiol gan yr Ewropeaid, lleihawyd hawliau'r bobl hyn dros dir ac adnoddau. Pan gafwyd annibyniaeth ar Ewrop, cawsant eu trin eto fel petaent yn haeddu llai o barch na hiliau eraill, a bu llywodraethau'n ceisio'u cymathu i gymdeithas yn hytrach na chefnogi eu traddodiadau. Mae llawer o bobloedd brodorol gwahanol yn America Ladin ond, â siarad yn gyffredinol, maent yn rhannu agwedd at dir, sy'n wahanol iawn i agweddau'r gorllewin, gan gredu bod tir yn rhywbeth i'w fawrygu, i ofalu amdano a'i gadw ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, yn hytrach na meddwl amdano fel nwydd i fanteisio arno, a'i brynu a'i werthu

Nid y bobl frodorol oedd yr unig rai a wynebai dlodi a chamwahaniaethu yn America Ladin. Roedd Victor Jara yn gerddor ac yn gyfarwyddwr theatr yn Chile yn yr 1960au a'r 1970au. Ar yr adeg honno, roedd tir yn dal i fod yn nwylo nifer bach o berchnogion cyfoethog ac yn cael ei ffermio gan niferoedd mawr o werinwyr a oedd yn byw mewn tlodi enbyd. Magwyd Jara ei hun ar aelwyd werinol dlawd. Bu'n rhaid iddo ddechrau gweithio ar y tir pan oedd yn chwech oed, gan fod angen yr incwm ar ei deulu. Nid oedd ei dad yn gallu ennill digon i gynnal y teulu a throdd ei gefn ar ei wraig a'i blant ar ôl dod yn gaeth i alcohol. Magwyd Jara gan ei fam, a dysgodd ganddi draddodiadau gwerin a sut i chwarae'r gitâr. Bu'r heriau hyn ym more oes yn fodd i ddatblygu ymwybyddiaeth Jara o fywyd caled ffermwyr gwerinol y cyfandir a'r tlodi a'r anghyfiawnder yr oeddent yn eu dioddef. Gofynnai i'w hun pam y gwrthodid cyfran deg o ffrwyth eu llafur i'r bobl a oedd yn trin y tir.

Newid yn yr Hinsawdd

Mae Newyddion Bolifia yn cyfeirio at y newid yn yr hinsawdd ac yn archwilio sut y mae'n gwaethygu sefyllfa pobl frodorol gan eu bod nhw'n aml yn byw ar dir rhatach sy'n agored i lifogydd a sychder. I gael rhagor o wybodaeth a gweithgareddau am y newid yn yr hinsawdd, edrychwch ar adnoddau Addysg Oxfam, *Her yr Hinsawdd a Rhoi Newid ar Waith* sy'n defnyddio astudiaeth achos o Bolifia.